# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Aberconwy

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Aberconwy yn blaenoriaethu cymorth a gofal ar gyfer eu disgyblion. Maent wedi sefydlu cymuned ofalgar lle caiff amrywiaeth ei dathlu, ac anogir parch ar y ddwy ochr. Ceir diwylliant diogelu cadarnhaol lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn yr ysgol. At ei gilydd, mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol.

Mae ansawdd yr addysgu'n rhy amrywiol, gan olygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn tua hanner y gwersi yn unig. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol, maent yn cynllunio tasgau difyr ac mae ganddynt arferion buddiol sy'n eu cynorthwyo i reoli ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn aml yn cynllunio tasgau diymdrech, mae ganddynt ddisgwyliadau rhy isel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac nid ydynt yn herio ymddygiad aflonyddgar yn ddigon da. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn ychwanegol, mae effaith yr adborth ysgrifenedig a llafar yn rhy amrywiol, yn enwedig o ran gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi newid ei hymagwedd at y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7 i 9 ac wedi gweithio i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng meysydd pwnc. Er bod ychydig o enghreifftiau o brofiadau dysgu effeithiol, ar y cyfan, nid yw pynciau'n cynllunio'n ddigon da i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn ychwanegol, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol yn cael ei chynllunio na'i chydlynu'n ddigon strategol. O ganlyniad, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso neu ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â'u dealltwriaeth bynciol yn ddigon heriol yn aml, ac nid ydynt yn eu cynorthwyo i wella'u medrau, yn enwedig eu cywirdeb technegol wrth ysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ac yn rhoi cymorth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd. At ei gilydd, mae'r ysgol yn rhoi cymorth addas i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae dwy ganolfan adnoddau dysgu'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r cymorth cymdeithasol ac emosiynol ar gyfer disgyblion yng nghanolfan Tegfan yn gryf ac mae canolfan ABCD yn darparu cymorth targedig buddiol i'w disgyblion wella'u medrau llythrennedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a wna disgyblion yng nghanolfan Tegfan yn rhy amrywiol.

Er bod arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau addas yn y gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar nifer o feysydd pwysig, yn enwedig ansawdd yr addysgu a'r dysgu, datblygiad graddol medrau disgyblion, a phresenoldeb disgyblion. Mae hyn yn bennaf

oherwydd yr amrywiad yng ngallu arweinwyr i werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant, ac oherwydd nad yw uwch arweinwyr yn sicrhau bod arweinwyr canol yn gyson effeithiol yn y ffordd y maent yn cyflawni eu rolau. Er bod y pennaeth wedi cryfhau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ddiweddar, nid yw'r prosesau ar gyfer atebolrwydd yn ddigon effeithiol o ran ysgogi gwelliannau. Mae arweinwyr wedi mireinio'u prosesau ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion yn ddiweddar, ond megis dechrau y mae'r rhain. Mae cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn parhau i fod yn faes pwysig i'w wella.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am sicrhau gwelliant

A2. Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a gwelliant yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar gynnydd a datblygiad medrau disgyblion

A3. Gwella ansawdd ac effaith yr addysgu a'r adborth fel bod hyn yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd cryf

A4. Gwella presenoldeb disgyblion, yn enwedig presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol

A5. Cryfhau cydlynu'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad graddol medrau disgyblion, a sicrhau ymagwedd gyson gadarn at wella cywirdeb technegol ysgrifennu disgyblion

A6. Sicrhau bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion yn gyson

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

# Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025